Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Creu sbwriel a thipio anghyfreithlon

## Graddfa Fach: unigolion yn taflu sbwriel

**Heb bobl, ni fyddai sbwriel:**

- Y cyhoedd, teulu, CHI yn gollwng sbwriel.
- Taflu sbwriel allan o ffenestri ceir.
- Gadael sbwriel ar ôl cael picnic neu farbeciw.
- Tir yr ysgol yn aml yn llawn sbwriel y mae disgyblion wedi'u gollwng.

Teimla 25% o boblogaeth Cymru ei bod hi'n dderbyniol gollwng neu adael rhywbeth os nad oes bin gerllaw.

## Graddfa Fawr: gwastraff sy'n gysylltiedig â busnes

**Heb fusnesau, ni fyddai unrhyw beth i'w ollwng:**

- Mae'r cynnydd yn nefnydd bwyd cyflym wedi arwain at gynnydd anferth mewn taflu sbwriel.
- Mae cynnyrch mewn archfarchnadoedd yn gynyddol yn cael eu rhwymo mewn plastig sydd angen cael gwared arno'n gywir.
- Gall busnesau mawr a diwydiannau gynhyrchu symiau mawr o wastraff. Bydd rhai yn dewis tipio eu gwastraff yn anghyfreithlon yn hytrach na thalu am gael gwared ohono yn ddiogel.
- Mae rhai cwmnïau yn codi tâl am gludo gwastraff, ac yna yn ei ollwng yn anghyfreithlon er mwyn osgoi'r gost o fynd ag ef i gyfleuster gwastraff awdurdodedig.

## Anuniongyrchol

**Gall cyllidebau is awdurdod lleol arwain at ostyngiad ym mha mor aml y mae sbwriel yn cael ei gasglu a biniau gwastraff cyhoeddus yn cael eu gwacáu. Gallai hyn arwain at sbwriel yn cael ei wasgaru yn anuniongyrchol trwy ddulliau eraill:**

- Chwythu allan o finiau gan wynt.
- Tynnu allan o finiau a'i wasgaru gan fywyd gwyllt e.e. gwylanod.

Fformat amgen; print mawr neu iaith arall, cysylltwch â:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000

E-bost: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Canlyniadau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon

## Amgylcheddol

- Mae sbwriel yn beryglus i anifeiliaid anwes a bywyd gwyllt. Mae'r RSPCA yn derbyn dros 7,000 o alwadau'r flwyddyn am anifeiliaid sydd wedi'u hanafu gan sbwriel. Nid yw'r union nifer yn hysbys gan y bydd llawer yn marw o'u hanafiadau heb gael eu darganfod.
- Gall bonion sigarét sy'n cael eu gollwng neu eu taflu allan o ffenestri ceir ddechrau tanau gwair. Cafwyd dros 55,000 o danau gwair yng Nghymru ac ymron i 550 o danau coedwig yn Ne Cymru rhwng 2000 a 2008, gyda nifer ohonynt wedi'u dechrau'n fwriadol.
- Gall cemegau drwytholchi i bridd o sbwriel megis batris.
- Nid yn unig y mae sbwriel yn edrych yn hyll fe all hefyd ddenu plâu gan gynnwys llygod mawr.
- Mae ysbwriel yn aml yn cael ei chwythu i nentydd ac afonydd ac yn y pen draw yn cael ei gludo i'r môr. Gall gwastraff yn y môr anafu a lladd creaduriaid y môr.
- Mae anifeiliaid morol a physgod yn bwyta darnau bychain o blastig ac maen nhw'n treiddio i'r gadwyn fwyd ddynol.

## Economaidd

- Mae cost glanhau sbwriel yng Nghymru tua £70 miliwn bob blwyddyn.
- Mae glanhau blynyddol ar ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yng Nghymru yn costio ymron i £2 miliwn.
- Gall prisiau tai ostwng mewn ardaloedd lle mae tipio anghyfreithlon yn broblemus gan fod yr ardal yn cael ei hystyried yn llai deniadol.
- Dengys ymchwil bod ardaloedd sy'n llawn sbwriel neu ble y digwydd tipio anghyfreithlon yn rheolaidd yn llai tebygol o ddenu ymwelwyr, gan effeithio ar fusnesau lleol.
- Gall sbwriel fod yn arbennig o ddifrodus i fannau sy'n dibynnu ar dwristiaeth am incwm. Er enghraifft, yr un ffactor pwysicaf sy'n dylanwadu ar benderfyniadau pobl am ba draeth i ymweld â hi yw pa mor lân ydyw. Mae hyn yn golygu y gall amgylchedd yn llawn sbwriel gael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar fusnesau a chymunedau lleol.

## Cymdeithasol

- Gall rhai mathau o wastraff fod yn niweidiol i iechyd, megis asbestos. Gall sbwriel ddenu plâu hefyd megis llygod mawr a all gludo afiechydon.
- Mae sbwriel yn gwneud i'r amgylchedd edrych yn hyll. Gallai hyn annog y rheini sy'n byw yn yr ardal rhag peidio â threulio amser yn yr awyr agored. Mae hyn yn cynyddu problemau megis gordewdra. Gall effeithio hefyd ar broblemau iechyd meddwl gan gynnwys gorbryder a straen.
- Gall taflu sbwriel ostwng balchder mewn ardal, gan arwain ati'n cael ei hesgeuluso.
- Mae sbwriel yn annog mwy i daflu sbwriel! Yn yr un ffordd, mae ardal sy'n cynnwys gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon yn fwy tebygol o gael mwy o wastraff wedi'i dipio gerllaw.

Fformat amgen; print mawr neu iaith arall, cysylltwch â:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000

E-bost: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Goresgyn taflu sbwriel a thipio'n anghyfreithlon

## Cyfreithiol

- Mae Taclo Tipio Cymru yn mynd i'r afael â thipio gwastraff. Maen nhw'n cynghori'r cyhoedd ar eu dyletswydd i gael gwared ar wastraff yn gyfrifol ac i ddefnyddio cludwyr gwastraff cofrestredig yn unig. Gall y rhai sy'n tipio'n anghyfreithlon wynebu dirwyon o hyd at £50,000 a/neu garchar.
- Gellir eich erlyn am Drosedd o Adael Sbwriel o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. Gall Llysoedd Ynadon gyflwyno dirwy o hyd at £2,500 am droseddau sbwriel.
- Gall swyddogion awdurdodedig sy'n gweithio o fewn yr Awdurdod Lleol neu'r Heddlu gyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig. Gellir eu gosod ar lefel leol o rhwng £75 a £150.

## Addysg / Ymwybyddiaeth

- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cadwch Gymru'n Daclus i gynnal y rhaglen Eco-ysgolion. Mae hon yn fenter ryngwladol sy'n annog disgyblion i ymgysylltu â materion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy. Mae taflu sbwriel a gwastraff yn ddau o'r testunau yr ymdrinnir â hwy yn y fenter.
- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chadwch Gymru'n Daclus a'r 22 awdurdod lleol ar y fenter Trefi Taclus. Mae'r prosiect yn anelu at roi'r grym i bobl Cymru i gymryd cyfrifoldeb dros ansawdd eu hamgylchedd lleol eu hunain er mwyn iddynt allu cyfrannu at Gymru lân, ddiogel a thaclus.
- Mae bod yn ymwybodol o gyfleusterau ailgylchu yn eich ardal leol a beth y gallwch ei ailgylchu ar stepen y drws yn eich galluogi chi i gymryd cyfrifoldeb dros eich gwastraff. Mae defnyddio safleoedd ailwerthu ar y we yn sicrhau nad yw eitemau nad oes eu hangen arnoch mwyach yn gallu cael eu hailddefnyddio, gan ostwng eich gwastraff. Bydd rhai elusennau yn casglu eitemau nad ydych chi eu hangen mwyach megis dodrefn.

## Gostwng – Ailddefnyddio – Ailgylchu

- Uwch-gylchu eitemau sydd wedi dyddio! Uwch-gylchu, a elwir hefyd yn ailddefnyddio creadigol, yw'r broses o weddnewid deunyddiau gwastraff neu gynnyrch nad ydych eu hangen mwyach yn gynnyrch newydd o ansawdd gwell. E.e. gitarau wedi'u gwneud o fyrddau sgrialu!
- Defnyddiwch eich darpariaethau lleol yn gywir, e.e. biniau ailgylchu, a gwnewch y gorau o gasgliadau o'r cartref a thomennydd lleol.
- Pan fydd ein gwastraff yn cael ei ailgylchu gellir eu troi yn gynnyrch newydd sydd â gwerth iddynt.
- Mae ailgylchu sbwriel yn gostwng y pwysau ar ein hadnoddau naturiol gan fod angen llai o ddeunydd crai.

Fformat amgen; print mawr neu iaith arall, cysylltwch â:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000

E-bost: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government